



## Rhaglen Dysgu Carlam

Yn ystod yr argyfwng (Covid 19) mae'n amlwg nad yw llawer o ddysgwyr wedi datblygu cymaint ag y gallen nhw o ran eu cynnydd mewn dysgu, gyda rhai wedi cael eu heffeithio'n fwy difrifol nag eraill. Mae tystiolaeth o amryw o ffynonellau dibynadwy (OECD, ARC, Estyn, y Rhanbarthau, Ymddiriedolaeth Sutton, y Comisiynydd Plant, Barnardos, diweddariadau gwybodaeth rhyngwladol), gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar Gymru, yn awgrymu bod y rhan fwyaf neu'r holl ddysgwyr wedi cael eu heffeithio, ac mai'r rhai mwyaf agored i niwed sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf.

Felly, roddir Grant Rhaglen Dysgu Carlam i ysgolion Cymru.

Dyma sut mae Ysgol Gymraeg Sant Curig yn bwriadu gwario'r arian yma:

Swm a dderbyniwyd /Sum received 2020-21 (Hyd at Pasg 2021)	£15242
Nifer y disgyblion bydd y grant yma yn gallu effeithio ar:	Derbyn: 60 o blant Blwyddyn 1 a 2: 104 o blant Blwyddyn 3 a 4: 104 o blant <b>Fe fydd effaith gadarnhaol ar ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 oherwydd y buddsoddiant mewn i weddill y disgyblion.</b>
Defnyddir y grant Rhaglen Dysgu Carlam i ariannu:	<u>Rhan 1</u> <ul style="list-style-type: none"><li>• Un athrawes (ANG) sy'n gweithio 4 diwrnod (cyfnod mamolaeth) i weithio diwrnod ychwanegol. Fe fydd yr athrawes yn targedu grwpiau o blant o flwyddyn 1 a 2 a gweithio gyda nhw ar: siarad a defnyddio'r Iaith Gymraeg, strategaethau Tric a Chlic, darllen llyfrau Coeden Darllen Rhydychen. Cefnogi a thargedu grwpiau yn ôl angen yr athrawon</li><li>• Fe fydd y gefnogaeth yn rhedeg o Dachwedd yr 2ail 2021 hyd at 26ain o Fawrth 2021.</li><li>• Cyfanswm y Gost ar gyfer y gefnogaeth yma fydd: £2808.00</li></ul> <u>Rhan 2</u> <ul style="list-style-type: none"><li>• 1 Cynorthwydd x 3 diwrnod i weithio gyda grwpiau o ddisgyblion lawr yn y dosbarth derbyn.</li></ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dydd Mercher, lau a Gwener i weithio lawr yn y dosbarth derbyn. Fe fydd y ffocws ar siarad a chyfoethogi'r Iaith Gymraeg gyda'r plant, defnyddio strategaethau Tric a Chlic a chefnogi a thargeddu grwpiau yn ôl angen yr athrawon.</li> <li>• Fe fydd y gefnogaeth yma yn cychwyn o'r 2ail o Dachwedd 2021 a rhedeg hyd at y 26ain o Fawrth 2021.</li> <li>• Cyfanswm y gost yma fydd: £9095.58</li> </ul> <p><u>Rhan 3</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 1 x Cynorthwydd Gradd 5 Lefel 8 i weithio x2 ddydd yr wythnos gyda blynyddoedd 3 a 4 yn benodol.</li> <li>• Fe fydd y Cynorthwydd yn defnyddio strategaethau Tric a Chlic, Fresh Start Phonics, Read, Write, Inc, siarad gyda'r disgyblion gan ddefnyddio'r Gymraeg, darllen cyfres llyfrau Cymraeg a Saesneg. Cefnogi a thargeddu grwpiau yn ôl angen yr athrawon.</li> <li>• Mae diddordeb mawr gan y cynorthwydd mewn dysgu patrymau iaith drwy canu a rapio. Felly fe fydd hyn yn elfen holl bwysig o'r ymyrraeth.</li> <li>• Fe fydd y gefnogaeth yma yn cychwyn o'r 2ail o Dachwedd 2021 a rhedeg hyd at y 26ain o Fawrth 2021.</li> <li>• Cyfanswm y gost yma fydd: £3315</li> <li>• Cyfanswm y gefnogaeth fydd: £15,218.68</li> </ul>
<p>Maen prawf llwyddiant/Mesur Gwelliant</p>	<p><u>Derbyn</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fe fydd ein gwaelodlin mewn lle erbyn diwedd hanner tymor yma. Fe fydd hyn yn rhoi man cychwyn ardderchog i'r staff. Gallwn wedyn mesur effeithiolrwydd yr ymyrraeth yn drwy edrych ar ein gwerth ychwanegol ar ddiwedd tymor 2 (26.03.2021)</li> <li>• Adborth staff ac asesiadau athro/cofnodion monitro safonau llafar y disgyblion</li> <li>• Defnyddio INCERTS i fesur cynnydd mewnol y disgyblion.</li> <li>• Cofnodion Tric a Chlic</li> <li>• Cofnod o blant PyaDd – mesur cynnydd y grŵp yma.</li> </ul> <p><u>Blwyddyn 1 a 2</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mesur gwerth ychwanegol gan ddefnyddio data Incerts (2 bwynt yn eu haddysg – 26.03.2021 ac yna tua diwedd tymor yr haf 25.06.2021)</li> <li>• Adborth staff ac asesiadau athro/cofnodion monitro safonau llafar y disgyblion</li> <li>• Cofnod o blant PyaDd – mesur cynnydd y grŵp yma.</li> <li>• Cofnodion Tric a Chlic</li> </ul>

Blwyddyn 3 a 4

- Mesur gwerth ychwanegol gan ddefnyddio data Incerts - 26.03.2021
- Adborth staff ac asesiadau athro/cofnodion monitro safonau llafar y disgyblion
- Asesiadau Tric a Chlic, Fresh Start Phonics.
- Profion mewnol yr ysgol (Darllen Cymraeg/Saesneg, Sillafu Cymraeg/Saesneg)
- Cofnod o blant PyaDd – mesur cynnydd y grŵp yma.

